**EITEM AR YR AGENDA: 8**

# GWASANAETH TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU
# ADRODDIAD AR GYFER PANEL GWEITHREDOL YR AWDURDOD TÂN AC ACHUB

| | |
|---|---|
| DYDDIAD: | 26ain Hydref 2005 |
| ADRODDIAD GAN: | **PAUL CLAYDON, PRIF SWYDDOG TÂN CYNORTHWYOL** |
| DIBEN YR ADRODDIAD: | Rhoi gwybod i'r Aelodau am ofynion trydydd flwyddyn y Cynllunio Integredig Rheoli Risg, ac awgrymu meysydd i'w datblygu ac i ymchwilio iddynt ymhellach cyn eu cyflwyno i'r Awdurdod Tân ac Achub. |

1. **CYFLWYNIAD**

1.1 Yn Rhagfyr 2002, fe wnaeth y Dirprwy Brif Weinidog hi'n glir y dylid cael rhaglen i ddiwygio a moderneiddio'r fframwaith y mae'r gwasanaeth tân ac achub yn gweithredu o'i fewn. Un o elfennau allweddol y rhaglen honno oedd yr angen i awdurdodau tân lunio Cynlluniau Integredig Rheoli Risg.

1.2 Bu aelodau'r Panel Gweithredol yn cyfarfod yn rheolaidd fel gweithgor rhwng mis Mehefin a mis Hydref 2003 i lunio Cynllun Risg cyntaf yr Awdurdod. Cafodd y Cynllun drafft ei gyhoeddi, bu ymgynghori yn ei gylch, gwnaethpwyd gwelliannau iddo, ac yn y diwedd cafodd ei gymeradwyo a'i fabwysiadu gan yr Awdurdod Tân ym mis Mawrth 2004.

1.3 Mewn byr o dro wedi'r Cynllun Risg gwreiddiol, daeth cynllun gweithredu ail flwyddyn yn Hydref 2004 a oedd yn ceisio adeiladu ar nodau ac amcanion strategol y cynllun gwreiddiol.

1.4 Diben y papur hwn yw rhoi gwybod i'r aelodau am ofynion y Cynllun Risg yn ei drydedd flwyddyn, ac awgrymu rhai meysydd a fyddai'n adeiladu ar y gwelliannau sydd, ac a weithredwyd, yn y Cynllun Risg blaenorol ac yn eu hatgyfnerthu.

2. **GOROLWG**

2.1 Ers cyhoeddi'r cynllun gweithredu ail flwyddyn, mae Tân ac Achub wedi dod yn fater datganoledig i Lywodraeth y Cynulliad. Mae'n bwysig nodi hyn gan fod proses y Cynllun Risg, ac i raddau ei gyfeiriad, yn y gorffennol wedi cael ei ddylanwadu gan gyfarwyddyd cynhwysfawr o Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog (ODPM).

2. **GOROLWG** *(parhad)*

2.2 Hyd yn hyn, ni ddaeth cyfarwyddyd penodol ar Gynlluniau Risg gan Lywodraeth y Cynulliad, a bydd yr Aelodau'n ymwybodol o'r ohebiaeth yn ddiweddar gan y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio at y Cadeirydd ynghylch y Cynlluniau Risg. Mae'r ohebiaeth hon, yr adroddwyd yn ei cylch i'r Aelodau yng nghyfarfod y Panel Gweithredol ym mis Gorffennaf, yn gofyn fod ystyriaeth yn cael ei roi i ohirio rhai elfennau o weithgarwch y Cynllun Risg sy'n ymwneud ag adleoli adnoddau'n barhaol. Mae hyn hyd nes y bydd y Cynulliad yn mynegi ei fwriadau ynghylch adolygu'r cyfarwyddyd.

2.3 Ffactor bwysig arall sy'n effeithio ar lunio Cynllun Risg eleni yw ymrwymiad y Llywodraeth y Cynulliad yn ei Fframwaith Cenedlaethol i safon ymateb. Mae'r Cynulliad wedi awgrymu bod datblygu safon ymateb yn hanfodol i gyfarwyddyd ar Gynlluniau Risg. Credir bod cyhoeddiad ar fin cael ei wneud ynglŷn â'r safon ymateb, ac y gallai gael effaith sylweddol ar leoliad adnoddau.

2.4 O ystyried y ffactorau hyn, bydd y cynllun gweithredu trydydd flwyddyn, er ei fod yn adeiladu ar y Cynlluniau Risg blaenorol, yn naturiol yn gyfyngedig. Efallai y byddai'r aelodau'n dymuno, er nad oes cyfarwyddyd pendant, i gynllun gweithredu'r drydedd flwyddyn fod yn destun ymgynghoriad cyhoeddus yn yr un modd â chynllun gweithredu'r ail flwyddyn.

3. **MEYSYDD PWNC**

Byddai'r meysydd pwnc canlynol yn adeiladu ar Gynlluniau Risg cyfredol yr Awdurdod Tân ac Achub ac yn eu hategu:-

3.1 Gweithredu argymhellion yr adolygiad o'r peiriannau arbennig gan ymorol am beiriannau dwy-swyddogaeth, peiriannau cyrraedd yn uchel a thendrau argyfwng.

3.2 Codi tâl am fynd allan at alwadau diangen dro ar ôl tro oherwydd systemau larwm tân awtomatig.

3.3 Treialu'r Ymateb ar y Cyd gydag Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru mewn gorsafoedd penodol yng Ngogledd Cymru.

3.4 Targedu a blaenoriaethu trefniadau diogelwch tân cymunedol ar gyfer eiddo yng Ngogledd Cymru sydd fwy nag ugain munud o amser teithio o'u gorsaf dân agosaf.

3.5 Ymchwilio i ddichonoldeb darpariaeth lleoliad awtomatig er mwyn dyrannu adnoddau'n well. Gallai hyn arwain at fod yn ddynamig wrth anfon rheolwyr a pheiriannau llawn amser at ddigwyddiadau.

3.6 Darparu fframwaith fonitro perfformiad gyda rhyngwyneb cyhoeddus a threfniadaethol sy'n hawdd ei ddefnyddio ac yn hawdd cael ato.

3.7 Adolygu effeithiolrwydd y ddarpariaeth gyfredol o ran rheolwyr yng Ngogledd Cymru.

4. **CASGLIADAU**

4.1 Bwriad y meysydd pwnc uchod yw gyrru ymlaen Gynlluniau Risg presennol yr Awdurdod Tân ac Achub ac felly dylid edrych arnynt fel ychwanegiadau i'r broses.

4.2 Efallai y bydd gan yr aelodau farn fod y Cynllun Risg nesaf yn 2006/07, a chymryd y daw cyfarwyddyd gan y Cynulliad ynghylch Cynlluniau Risg a'r safonau ymateb, yn adolygiad cyflawn a chynhwysfawr o'r Awdurdod.

4.3 Bydd ymgynghoriad ar y cynllun gweithredu yn ailddatgan ail gynllun gweithredu'r Cynllun Risg "Eich Gwasanaeth, Eich Diogelwch, Eich Llais" yn dilyn y protocolau amser a ddefnyddir gan y Cynulliad.

5. **ARGYMHELLION**

5.1 Bod yr Aelodau'n nodi cynnwys yr adroddiad.

5.2 Bod yr Aelodau'n ystyried pa ychwanegiadau, newidiadau neu addasiadau y dylid eu hargymell i'r Awdurdod Tân llawn ym mis Rhagfyr i'w cynnwys yng nghynllun gweithredu'r drydedd flwyddyn fel paratoad ar gyfer ymgynghoriad.

5.3 Yn ddibynnol ar gyfarwyddyd, fod yr Aelodau'n ymrwymo i Gynllun Risg cynhwysfawr ar gyfer 2006/7.